Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Sgan ar eich Dwplecs Gwythiennog - Eglurhad

Labordy Fasgwlar

Eich sgan

Yn gyntaf …. Mae'r math hwn o sgan yn gwbl ddi-boen ac ni ddefnyddir unrhyw nodwyddau nag unrhyw ddyfeisiau mewnwthiol eraill.

Yn debyg i sgan babi, defnyddir uwchsain i greu delweddau sgrin sy'n dangos llif y gwaed o fewn eich gwythiennau a'ch rhydwelïau.

Mae'n bosibl mae sonograffydd gwrywaidd neu fenywaidd fydd yn cynnal y sgan, yn dibynnu pwy fydd ar ddyletswydd. Os byddwch chi'n bryderus am gael eich sganio gan berson o ryw wahanol, gallwch gysylltu â'r adran a byddwn yn trafod yr apwyntiad.
Rhif ffôn: 01633 - 238287.

Beth i'w ddisgwyl

Ar gyfer y math hwn o sgan, bydd yn rhaid i'r technolegydd weld eich coes(au) o'ch morddwyd i groth isaf eich coes. Gofynnir i chi orwedd i lawr ar wely onglog a bydd y technolegydd yn symud eich coes yn ofalus i'r lle angenrheidiol. Ar ôl rhoi ychydig o gel oer ar du mewn eich coes, bydd y technolegydd yn rhoi'r stiliwr ar wyneb y croen ac yn sganio'r man angenrheidiol. Mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo ychydig o bwysedd ysgafn wrth iddo/ iddi wneud hyn.

Yn ystod y sgan, mae'n bwysig y byddwch chi'n clywed rhai synau rhyfedd sy'n berffaith normal ac ni ddylai achosi pryder.

Yn ystod y sgan, mae'n bosibl y gofynnir i chi wneud cad-drefniant Valsalva. Prawf syml yw hwn ac mae'n golygu anadlu'n drwm i mewn, pwyso i lawr am eiliad ac yna rhyddhau'r anadl Mae'n bosibl y byddwch chi hefyd yn teimlo'r technolegydd yn gwasgu croth eich coes i annog llif gwaed i mewn i'ch gwythiennau.

Sut gallwch chi baratoi

Nid oes angen unrhyw baratoi penodol ar gyfer y math hwn o archwiliad.

Ar ôl y sgan

Ar ôl gorffen y sgan, bydd y technolegydd yn ysgrifennu adroddiad i'w anfon at eich ymgynghorydd yn rhoi canlyniadau'r archwiliad. Os bydd yr ymgynghorydd yn dymuno eich gweld eto, bydd yn cysylltu â chi.

Cludiant Cleifion

Os byddwch chi'n cyrraedd ar gyfer eich apwyntiad gyda chludiant cleifion, a fyddech chi cystal â dweud wrth y technolegydd er mwyn iddo/ iddi roi gwybod i'r cludiant pan fydd eich archwiliad wedi gorffen.

"This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".